Coetir Mynydd
RHIF CWMNI 04918475

Hydref 31ain, 2016

e-bost: coetirmynydd@aol.com

www.coetirmynydd.co.uk

## 1. INCWM A GWARIANT (TRWY'R CYFRIF CYFREDOL) ar gyfer y cyfnod 1/11/2015 hyd 31/10/2016

**INCWM**

| | | |
|---|---:|---|
| Cyfoeth Naturiol Cymru | 740.46 | Cymhorthdal rheoli coetir Coetiroedd Gwell i Gymru |
| Tanysgrifiadau aelodaeth | 160.00 | Tanysgrifiadau |
| **CYFANSWM** | **900.46** | |

**GWARIANT**

| | | |
|---|---:|---|
| Meddalwedd Plas Nant | 60.00 | Lletya'r parth a'r wefan |
| Ynni Ogwen | 1000.00 | Prynu 20 cyfranddaliad Ynni Ogwen |
| Ann Corkett | 132.35 | Gwasanaethau cyfieithu |
| Rural Arbor Products | 160.00 | Yswiriant (Atebolrwydd cyhoeddus hyd at £5 miliwn) |
| Mynydd Timber Services | 480.00 | Clirio coed anniogel a choed a syrthiodd yn y gwynt |
| Ellergreen Hydro Ltd | 234.00 | Gwaith ar astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer cynllun bychan trydan dŵr |
| **CYFANSWM** | **2066.35** | |

**CYSONIAD**

| | | |
|---|---:|---|
| TROSIANT | 900.46 | Gweler uchod |
| GWARIANT | 2066.35 | Gweler uchod |
| **GWEDDILL** | -1165.89 | |
| BANC - GWEDDILL CYCHWYNNOL | 2815.03 | Cyfrif cyfredol 01/11/2015 |
| BANC - GWEDDILL TERFYNOL | 1649.14 | Cyfrif cyfredol 31/10/2016 |
| **CYFANSWM** | **1649.14** | |

## 2. CYFRIF CYNILO 14-DIWRNOD ar gyfer y cyfnod 1/11/2015 hyd 31/10/2016

| | | |
|---|---:|---|
| GWEDDILL CYCHWYNNOL | 21285.82 | 01/11/2015 |
| Banc y Co-op | 18.02 | Llog wedi talu'r dreth ar Gyfradd Gyfwerth Flynyddol o 0.09% |

| | | |
|---|---|---|
| GWEDDILL TERFYNOL | **21303.84** | 31/10/2016 |

Ar ddyddiad y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (15/02/2017)
Cynnwys y cyfrif cyfredol **£694.14 (**ond mae £995 yn ddyledus inni o gymorthdaliadau, felly, mewn gwirionedd, mae hyn yn £1689.14 + taliadau aelodaeth).
Cynnwys y cyfrif cynilo **£21303.84**

**Adroddiad y Trysorydd**

Bryan Dickinson fu'r trysorydd gweithredol ers y cyfarfod cyffredinol blynyddol diwethaf, yn dilyn ymddiswyddiad yr Athro Mike Yates.

Bu'r grŵp yn gohebu â Banc y Co-op er mwyn darparu gwybodaeth ychwanegol ynghylch "pobl â rheolaeth arwyddocaol" dros arian y grŵp (h.y. rheolwyr / aelodau'r pwyllgor) oherwydd newidiadau mewn rheoliadau ynghylch gwyngalchu arian. Sylwyd hefyd ar faterion eraill yr oedd angen ymdrin â hwy, ynghylch y math o gyfrif banc a fuasai gennym, newidiadau mewn llofnodwyr a sefydlu bancio ar lein. Ar ôl bron 12 mis ymddengys i'r holl faterion hyn gael y sylw priodol.

Cytunwyd gan y pwyllgor y dylai Coetir Mynydd gefnogi cynllun trydan dŵr y gymuned leol, sef Ynni Ogwen, trwy brynu 20 cyfranddaliad (am £50 yr un), hyd at gyfanswm o werth £1000 ar 25/5/2016. Fe allai Coetir Mynydd dderbyn llog o'r rhain, a chaiff dynnu'r buddsoddiad ar ôl tair blynedd os dymunwn.

Bu Coetir Mynydd yn defnyddio Rural Arbor Products i ddarparu hyd at werth £10,000,000 o yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer coetir Parc yr Ocar. Er hynny, maent wedi'n hysbysu nad oes modd iddynt ddarparu ond hanner yr yswiriant hwn (£5 miliwn) am yr un pris, oherwydd codiadau mewn prisiau, a byddai parhau â'r yswiriant gwreiddiol yn costio tua £500 y flwyddyn erbyn hyn. Prynwyd yr yswiriant llai ar gyfer eleni, ond dylai'r pwyllgor adolygu hyn.

Yn ystod y cyfnod cyfrifo diweddaraf, derbyniodd Coetir Mynydd ddau gymhorthdal (£11.5K gan Ynni Lleol a bron £10K gan Fantell Gwynedd) ar gyfer ymchwilio dichonoldeb cynllun bychan trydan dŵr y Galedffrwd. Gwnaed sawl arolwg, archwiliad cyfreithiol a gwaith arall, gan dalu amdanynt o'r cymorthdaliadau hyn, a bydd cyfrifon y flwyddyn nesaf yn adlewyrchu'r trosiant mwy.

Ar 1$^{af}$ Chwefror 2016 fe'n hysbyswyd gan fanc y Co-op fod graddfa gyfredol y llog ar ein cyfrif cynilo yn gostwng o 0.06% i 0.03% Cyfradd Gyfwerth Flynyddol. Er yr ystyrir bod y Co-op yn un o'r tri banc "moesegol" blaenaf, o gofio graddfa isel iawn ei log, a'r newydd diweddar ynghylch ei werthu, mae'n debyg ei bod hi'n adeg dda i edrych ar fanciau eraill.

Rhai banciau "moesegol" eraill yw:
Triodos Bank, sy'n cynnig 0.35% Cyfradd Gyfwerth Flynyddol ar ei gyfrif cadw 90 diwrnod o rybudd
Charity Bank, sy'n cynnig 0.40% Cyfradd Gyfwerth Flynyddol ar ei gyfrif cadw 40 diwrnod o rybudd
Banc y Co-op sy'n cynnig 0.03% Cyfradd Gyfwerth Flynyddol ar ei gyfrif cadw 14 diwrnod o rybudd